

Cael ein gwahanu oddi wrth Dduw

“A pheidiwch ag ofni’r rhai sy’n lladd y corff, ond na allant ladd yr enaid; ofnwch yn hytrach yr hwn sy’n gallu dinistrio’r enaid a’r corff yn uffern.”
(adn. 28)

Beth am ddarllen Mathew 10:24–33 ac yna myfyrio

Nid yw digofaint Duw yn gwneud unrhyw synnwyr hyd nes i ni ddarganfod ein heuogrwydd. Yng ngoleuni ein heuogrwydd a’n pechod, mae digofaint Duw yn rhywbeth yr ydym yn ei dderbyn braidd yn naturiol. Hwn yw’r barnwr cyfiawn. Hwn yw’r un sydd yn mynnu fod i bob pechod ei gyflawn daledigaeth. Rhaid talu dyled pechod ac os na fydd i ddyinion a gwragedd dderbyn fod eu pechod, wedi ei dalu gan Iesu Grist ar bren Calfaria, yna fe fydd yn rhaid iddynt dalu dyled eu pechod eu hunain.

Y peth mwyaf ofnadwy am y farn eithaf yw y bydd i bobl orfod dioddef cael eu gwahanu yn gyfan gwbl oddi wrth Dduw. Os bydd i chi wahanu’r afon oddi wrth ei tharddiad, mae yna farwolaeth. Torrwch y gangen oddi wrth y goeden, ac mae yna farwolaeth. Torrwch y corff oddi wrth yr enaid, ac mae yna farwolaeth. Torrwch yr enaid oddi wrth Dduw, mae yna farwolaeth dragwyddol. Yn ôl Thomas Watson, “Y mae tragwyddoldeb i’r duwiol yn ddiwrnod heb fachlud. Ond i’r annuwiol, mae’n nos heb wawr.”

Clywais un yn dweud unwaith fod colledigaeth un enaid yn golygu fod Duw wedi ei drechu. Beth yr oedd y dyn yma yn methu â’i ddeall oedd bod Duw, wrth greu dynoliaeth, wedi rhoi iddynt y gallu i ddewis. Fe allant benderfynu ei wasanaethu ef, neu wrthryfela yn ei erbyn. O’r cychwyn, fe wyddai Duw y byddai pobl yn ei wrthod. Dyma’r bobl fydd yn cael eu gwahanu oddi wrth Dduw yn nhragwyddoldeb.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Gen. 18:22–25; Eiseia 59:1–15

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y bu i Abraham gyfeirio at yr Arglwydd?
2. Pam fod pobl yn cael eu gwahanu oddi wrth Dduw?

Gweddi

O Dad, er na fyddi di yn gorfodi pobl i dy gydnabod, yr wyt yn hiraethu am weld eu hiachawdwriaeth. Datguddia dy hun trwy dy Ysbryd Glân yw fy ngweddi. Rwy’n gofyn hyn yn enw annwyl Iesu. Amen.